**Jeremy Miles MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

**Rebecca Evans MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

11 Medi 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ynghylch is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd angen llawer iawn o is-ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn galendr hon. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf sydd gennym o offerynnau statudol Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn ymwneud â threfniadau pontio'r UE, yn arbennig yn ymwneud â chywiriadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir, ac ar gyfer gweithredu'r Cytundeb Ymadael a Chytundeb Gwahanu EEA/EFTA a'r Cytundeb ar Hawliau Dinasyddion Swisaidd, bydd angen cydsyniad ffurfiol ar gyfer tua 45 o offerynnau statudol y DU drwy ohebiaeth â Gweinidogion Cymru.

Mae amserlenni bras yn cael eu diwygio gan Lywodraeth y DU ac rydym wedi ceisio sicrwydd na fydd y rhaglen yn cael ei chywasgu ymhellach tua diwedd y flwyddyn.

Mae gennym lawer llai o sicrwydd o ran y ddeddfwriaeth i weithredu cytuniad posibl ar y berthynas â'r UE yn y dyfodol ac ar gyfer Cytundebau Masnach Rydd gyda thrydydd gwledydd. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch Offerynnau Statudol yn ymwneud â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Rydym yn dal i bwyso am ragor o fanylion gan Lywodraeth y DU o ran sut y gellir pasio'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Mae darparu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn llwyddiannus yn mynnu dull gweithredu, neu o leiaf yn mynnu dealltwriaeth, ar draws y DU, ac ni ellir cyflawni hyn heb gydweithrediad Llywodraeth y DU.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod tua 30 o offerynnau statudol Cymru i'w gwneud i gyflawni cywiriadau pellach a gweithredu'r Cytundeb Ymadael, cytundebau perthnasol, a threfnau domestig ar ôl y cyfnod pontio, er y gall hynny newid yn dilyn trafodaethau pellach ynghylch

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Fel gyda'r rhaglen flaenorol ar gyfer cywiro offerynnau statudol, bydd nifer ohonynt yn ddibynnol ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn neddfwriaeth y DU ac felly bydd yr amseru wedi'i effeithio gan ddatblygiadau mewn mannau eraill.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd